


Adnoddau'r iaith Gymraeg i'r blynyddoedd cynnar a gofal plant



Dolenni defnyddiol i adnoddau sy'n ymwneud â'r Gymraeg.

Cyhoeddwyd gyntaf: 23 July 2024

Diweddariad olaf: 27 March 2025

Lawrlwythwyd y ddogfen hon o gofalcymdeithasol.cymru ac efallai nid hwn yw'r fersiwn diweddaraf.

Ewch i <https://gofalcymdeithasol.cymru/adnoddau-canllawiau/blynyddoedd-cynnar-a-gofal-plant/adnoddau-cymraeg-blynyddoedd-cynnar-gofal-plant> am y fersiwn diweddaraf.

Dyma ddolenni defnyddiol i adnoddau sy'n ymwneud â'r Gymraeg ac hefyd fideo o mam a mab yn egluro manteision gofal meithrin drwy'r Gymraeg.

Astudiaeth achos: Pam wnes i ddewis gofal meithrin Cymraeg

Gweld trawsgrifiad

1

00:00:00,000 --> 00:00:02,000

Roedd yn bwysig i mi fel

2

00:00:02,000 --> 00:00:05,202

siaradwr Cymraeg iaith cyntaf i yrru fy

3

00:00:05,286 --> 00:00:09,961

mhlant i i Fudad Meithrin Cymraeg

4

00:00:09,961 --> 00:00:12,578

oherwydd iaith y cartref ydy Cymraeg

5

00:00:12,578 --> 00:00:15,780

Mae fy ngwr i'n siarad Cymraeg hefyd

6

00:00:15,871 --> 00:00:18,000

felly o ran cyfathrebu

7

00:00:18,000 --> 00:00:23,221

mi oedd y plant yn barod yn cyfathrebu trwy'r Gymraeg

8

00:00:23,221 --> 00:00:26,566

felly mi oedd hynnu'n bwysig iawn

9

00:00:26,566 --> 00:00:29,693

fel bod nhw'n gallu mynd i sefydliad

10

00:00:29,693 --> 00:00:31,693

oedd yn ateb anghenion nhw

11

00:00:31,693 --> 00:00:36,082

o ran cyfathrebu a dealltwriaeth.

12

00:00:36,082 --> 00:00:41,433

Mi oedd hi hefyd yn bwysig er mwyn magu balchder

13

00:00:41,433 --> 00:00:49,044

yn hunaniaeth yr iaith o'r oedran fwyaf ifanc a phosib hefyd,

14

00:00:49,044 --> 00:00:52,544

a gallu cymdeithasu gyda phlant eraill

15

00:00:52,544 --> 00:01:01,116

sy'n dod o gartrefi lle yn amlwg mae'r bwyslais ar y Gymraeg.

16

00:01:01,116 --> 00:01:03,455

Roeddwn i'n siarad cymraeg yn y tŷ

17

00:01:03,455 --> 00:01:06,821

ac roedd arweinydd y Cylch yn siarad Cymraeg

18

00:01:06,821 --> 00:01:10,808

felly roeddwn i'n gallu cyfathrebu'n hyderus gyda nhw

19

00:01:10,834 --> 00:01:15,831

Nes i greu ffrindiau yn y Cylch oedd yn mynd i'r un ysgol Gymraeg a fi.

Mae'r fideo yma'n dangos mam a mab yn son am bwysigrwydd mynychu meithrinfa ac ysgol Gymraeg. Maen nhw'n siarad am yr effaith uniongyrchol y mae wedi'i gael arnyn nhw fel teulu.

Adnoddau ar gyfer y blynyddoedd cynnar a gofal plant

- Mae'r [Cyrsgiau Camau](#) yn gyrsiau Cymraeg Gwaith pwrpasol ar gyfer y sector blynyddoedd cynnar a gofal plant.
- Mae'r [adnoddau CWLWM](#) yn gymorth ar gyfer cynnwys dysgu cyrsiau Camau.
- Nod [addewid Cymraeg Clybiau](#) (gyda chefnogaeth ymarferol Swyddogion Datblygu Busnesau Gofal Plant Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs) yw cefnogi eich lleoliad o'r cam cyntaf (Efydd) drwodd i'r cam terfynol (Aur).

Apiau ar gyfer hyfforddiant

Mae [Cymraeg Gwaith](#) yn darparu cwrs ar-lein am ddim ar gyfer dechreuwyr sydd wedi'i deilwra ar gyfer y rhai sy'n gweithio ym maes gofal. Mae'n ymdrin â phynciau fel sut i gael sgwrs wyneb yn wyneb cychwynol yn Gymraeg â'r bobl rydych chi'n gofalu amdanyn nhw.

Mae'r cwrs [Camau | Dysgu Cymraeg](#) yn gwrs hunan-astudiaeth, sy'n addas i ddechreuwyr ac sydd wedi'i hariannu'n llawn gan y Ganolfan Dysgu Gymraeg Cenedlaethol.

Mae [Sgiliaith \(Grwp Llandrillo Menai\)](#) yn cynnig cyngor ymarferol ar arfer da, hyfforddiant staff ac adnoddau, i wella sgiliau a phrofiadau dwyieithog dysgwyr.

Mae'r [Coleg Cymraeg Cenedlaethol](#) yn rhoi ysgoloriaethau i fyfyrwyr israddedig ac ôl-raddedig astudio cyrsiau addysg uwch trwy gyfrwng Cymraeg. Mae ganddyn nhw adnoddau i gefnogi dysgwyr sydd â'r cymwysterau CCPLD a HSC newydd ac maen nhw'n cynnig cyrsiau 'Prentis-iaith' i brentisiaid sydd ag ychydig neu ddim sgiliau Cymraeg ar hyn o bryd. Maen nhw'n galluogi prentisiaid i gwblhau rhan o'u cymhwyster HSC / CCPLD yn Gymraeg.

Mae cynllun [Iaith Gwaith](#) a'r bathodyn swigen oren yn dangos eich bod yn siarad Cymraeg.

Mae Clwb Cwtsh yn adnodd sy'n cyflwyno geirfa Cymraeg i rieni a gofalwyr allu defnyddio gyda phlant. [Gwyliwch fideo am Clwb Cwtsh](#) ar sianel YouTube Mudiad Meithrin.

Sefydliadau arall

Mudiad Meithrin

Mae Mudiad Meithrin yn darparu profiadau chwarae a dysgu i blant o'u genedigaeth hyd at oedran ysgol.

- Gwyliwch y fideo '[Pwy yw Mudiad Meithrin](#)' ar ei sianel YouTube i ddarganfod mwy.

Tudalen YouTube Mudiad Meithrin

Mae [tudalen YouTube Mudiad Meithrin](#) yn cynnwys amryw o adnoddau Cymraeg.

Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg

Mae'r modiwl hwn yn rhoi ymwybyddiaeth o pam mae sgiliau Cymraeg a gweithio'n ddwyieithog yn bwysig. Mae hefyd yn cyfeirio at adnoddau pellach sy'n darparu cymorth.

Pwysigrwydd yr iaith Gymraeg a diwylliant Cymru (plant a phobl ifanc)

Bydd y modiwl hwn yn eich helpu i archwilio pwysigrwydd yr iaith Gymraeg a diwylliant Cymru i blant a phobl ifanc

Asesu a chofnodi sgiliau iaith eich staff

Bydd yr adnoddau hyn yn eich galluogi i ganfod pa sgiliau iaith Gymraeg sydd gennych eisoes yn eich gweithlu